**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

# Costau Arwyddion Senedd Cymru

30 Tachwedd 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 2 Tachwedd, pan wnaethoch ofyn:

*Beth oedd cost ailenwi'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru/Welsh Parliament, yn arbennig mewn perthynas â'r canlynol:*

1. *Aelodau'n newid arwyddion yn eu swyddfeydd*
2. *Newid arwyddion ar ystâd Senedd Cymru*
3. *Newid penawdau llythyrau*
4. *Newid taflenni*
5. *Newidiadau o ran y wefan a TG e.e. e-bost*

Gweler ein hymateb i'ch cwestiynau isod.

Nodwyd yr holl gostau amcangyfrifedig ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r newid enw yn y **Memorandwm Esboniadol <https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld12142-em-r/pri-ld12142-em-r-w.pdf>** a oedd yn cyd-fynd â chyflwyno Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth fanwl am y **Ddeddf <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=23754&Opt=0>** ar gael ar wefan y Senedd. Bu Comisiwn y Senedd yn gweithio i gadw'r gost o roi'r newid enw ar waith ar ei isaf. Er enghraifft, penderfynwyd osgoi ail-frandio neu newid y logo. Mae cyfanswm y gost ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r newid enw, ac eithrio amser staff, oddeutu £50,000.

1. Nid yw'r Aelodau wedi hawlio unrhyw arian o'u lwfansau ar gyfer arwyddion swyddfa yn sgil y newid enw. Mae hyn oherwydd bod Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd wedi gwneud penderfyniad na ddylai'r Aelodau geisio hawlio yn ôl

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

unrhyw gostau arwyddion mewn perthynas â newid enw'r sefydliad cyn etholiad nesaf y Senedd nesaf ym mis Mai 2021.

2. Cyfanswm y gost o ailosod arwyddion allanol o amgylch ystâd y Senedd (gan gynnwys tynnu a gwaredu hen arwyddion a dylunio, cynhyrchu a gosod arwyddion newydd) oedd £14,502.83. Cyfanswm y gost o ailosod arwyddion allanol yn swyddfa Bae Colwyn (gan gynnwys symud a gwaredu hen arwyddion a gweithgynhyrchu, a gosod arwyddion newydd) oedd £2,179.12
3. 4. Ail-ddyluniwyd holl dempledi deunydd ysgrifennu'r Senedd (gan gynnwys penawdau llythyrau a thaflenni) gan dîm dylunio mewnol y Senedd, heb unrhyw gost ychwanegol. Mae llai o ddeunydd ysgrifennu wedi'i argraffu ymlaen llaw yn cael ei ddefnyddio ac mae llawer o Aelodau'r Senedd yn argraffu eu deunydd ysgrifennu eu hunain yn ôl yr angen. Yn y misoedd yn arwain at y newid enw, cafodd staff eu cynghori i gyfyngu ar faint o hen stoc oedd dros ben wrth archebu deunyddiau wedi'u hargraffu oedd yn cynnwys terminoleg a fyddai'n newid ar 6 Mai. Yn ystod y flwyddyn oedd yn arwain at y newid enw, roedd Comisiwn y Senedd yn dwyn i ystyriaeth faint o stoc a oedd yn cael ei brynu, er enghraifft yn archebu amlenni gyda'r logo'n unig, heb yr enw. Yn achos amlenni wedi'u talu ymlaen llaw sy'n cynnwys yr hen enw, maent yn cael eu defnyddio i osgoi gwastraffu costau postio. O ganlyniad, nid oedd angen i Gomisiwn y Senedd ddinistrio unrhyw stoc. Ers mis Mai 2020, mae 5,000 o benawdau llythyrau, 4 llyfr nodiadau, a 600 o slipiau cyfarch wedi'u hargraffu gyda'r enw newydd am gost o £424. Dylid nodi, er mor fach yw'r ffigur hwn, ei fod yn cynnwys argraffu 'busnes fel arfer' a fyddai wedi bod yn angenrheidiol
hyd yn oed heb y newid enw.
5. Lle bynnag y bo hynny'n bosibl, staff Comisiwn y Senedd yn fewnol a wnaeth ddiweddariadau i'r wefan a TG yn sgil y newid enw. Lle nad oedd modd gwneud hyn, gweithiodd staff Comisiwn y Senedd i leihau costau. Ac eithrio amser staff, mae'r tabl isod yn rhoi costau pob newid i'r wefan a TG:

| **Eitem** | **Disgrifiad** | **Cost** |
|---|---|---|
| Meddalwedd slipiau cyflog | Diweddariadau i'r feddalwedd sy'n cynhyrchu slipiau cyflog staff, gan gynnwys diweddariadau angenrheidiol i dempledi a chronfa ddata'r system. | £2475.00 |
| System gyllid NAV | Diweddariadau i system cyllid electronig y Senedd, gan gynnwys diweddariadau i gronfa ddata'r | £8860.50 |

| | | |
|---|---|---|
| | system, templedi wedi'u hymgorffori ar gyfer dogfennau sy'n cael eu hanfon at gleientiaid fel anfonebau, adroddiadau Aelodau a chyhoeddi treuliau a rhyngwyneb â meddalwedd cipio dogfennau. | |
| Meddalwedd e-Ddysgu | Ail-frandio fideos e-Ddysgu a grëwyd cyn y newid enw. | £2100.00 |
| Parthau'r we | Mae'r gost hon yn cynnwys prynu parthau gwe i adlewyrchu'r enw newydd. | £180.73 |
| Tystysgrifau Haenen Socedi Diogel | Diweddariadau i'r tystysgrifau digidol sy'n dilysu ar gyfer y wefan ac yn galluogi cysylltiad wedi'i amgryptio. | £877.27 |
| Prif systemau:<br><br>• System gyflwyno;<br>• System drawsgrifio;<br>• Gwefan (senedd.cymru);<br>• Y Cofnod (cofnod.senedd.cymru); a<br>• Porth lwfansau'r Aelodau (lwfansau.senedd.cymru). | Gwnaed mwyafrif y diweddariadau i'r prif systemau yn fewnol gan staff y Comisiwn. Fodd bynnag, o ganlyniad i COVID-19 a chynnydd sydyn o ganlyniad yn y gwaith datblygu yr oedd yn ofynnol i'r staff ei wneud, ochr yn ochr â newidiadau ar unwaith i arferion gwaith, bu'n rhaid rhoi cyfran o'r gwaith ar gontract allanol. | £4932.00 |
| **Cyfanswm** | | **£19425.50** |

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**.  Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn.  Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i